WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu: Addas ar gyfer y dyfodol? – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 733A2018-19

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn amlinellu'r arfer wrth drafod ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am ddatgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru ar infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd y tîm a wnaeth y gwaith yn cynnwys Katherine Simmons, Justine Morgan a Colin Davies dan gyfarwyddyd Jane Holownia

# Cynnwys

Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu y Cyngor yn datblygu, ond mae angen mynd ati'n fwy effeithiol i gynllunio a gwerthuso'r gweithgaredd trosolwg a chraffu i sicrhau bod y swyddogaeth yn addas ar gyfer y dyfodol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer Gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi cynyddu rôl y gwaith trosolwg a chraffu yn ei drefniadau gwella a llywodraethu, ond gallai gryfhau'r gefnogaeth i'r swyddogaeth graffu 6

Mae'r Cyngor wedi gwella'r arferion trosolwg a chraffu, ond nid yw'r gweithgaredd yn cael ei gynllunio'n dda bob amser 8

Mae'r Cyngor yn dechrau gwerthuso pa mor effeithiol yw ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, ond mae angen iddo wneud rhagor o waith i ddangos effaith y gwaith craffu 10

Atodiadau

Atodiad 1 – Canlyniadau a Nodweddion ar gyfer Trosolwg a Chraffu Effeithiol ar ran Lywodraeth Leol 12

Atodiad 2 – Argymhellion o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ei Astudiaeth Wella Genedlaethol, sef 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Gyda'r 22 o gynghorau sydd yng Nghymru, buom yn archwilio pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Fe wnaethon ni ystyried sut mae cynghorau'n ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yng nghyswllt eu gweithgareddau craffu, yn ogystal â sut mae cynghorau yn dechrau ar y gwaith o graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Buom hefyd yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa'r cynghorau o ran eu gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol, megis y pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r posibilrwydd o symud tuag at fwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol ar lefel ranbarthol.

2 Buom hefyd yn adolygu cynnydd cynghorau o ran rhoi sylw i'r argymhellion a oedd yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol, sef 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Aethom ar drywydd cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i graffu a gyhoeddwyd gennym mewn adroddiadau lleol, gan gynnwys y rheini a ddosbarthwyd i gynghorau fel rhan o'n hadolygiadau thematig o Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau yn 2016-17.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- canfod dulliau o wreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu fel sail ar gyfer rhannu arferion a llywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau nawr ac yn y dyfodol;
- helpu i wreiddio craffu effeithiol ar ran aelodau etholedig o ddechrau'r cylch etholiadol newydd ymlaen; a
- gweld pa mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol.

4 Fel sylfaen i'n canfyddiadau, fe wnaethon ni seilio ein dull adolygu ar y Canlyniadau a'r Nodweddion ar gyfer Trosolwg a Chraffu Effeithiol ar ran Llywodraeth Leol yr oedd rhanddeiliaid craffu yng Nghymru wedi eu llunio ac wedi cytuno arnynt yn sgil ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol, sef 'Craffu Da? Cwestiwn Da!'

5 Yn ystod mis Rhagfyr 2017 ac Ionawr 2018, fe wnaethon ni gynnal adolygiadau o ddogfennau a chyfweld nifer fach o swyddogion allweddol, ynghyd â chynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr allweddol, er mwyn deall eu barn am drefniadau craffu presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) ac, yn arbennig, sut mae'r Cyngor yn ymdrin â'r heriau a nodwyd uchod a sut mae'n bwriadu ymateb iddynt.

6 Buom yn arsylwi mewn sampl o gyfarfodydd craffu, ac yn adolygu dogfennau cyfarfodydd perthnasol a ddarparwyd i aelodau i'w cynorthwyo gyda'u rôl graffu, megis adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad fod y swyddogaeth trosolwg a chraffu yn datblygu, ond mae angen mynd ati'n fwy effeithiol i gynllunio a gwerthuso'r gweithgaredd trosolwg a chraffu i sicrhau bod y swyddogaeth yn addas ar gyfer y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cynyddu rôl y gwaith trosolwg a chraffu yn ei drefniadau gwella a llywodraethu, ond gallai gryfhau'r gefnogaeth i'r swyddogaeth graffu;
- mae'r Cyngor wedi gwella'r arferion trosolwg a chraffu, ond nid yw'r gweithgaredd yn cael ei gynllunio'n dda bob amser; ac
- mae'r Cyngor yn dechrau gwerthuso pa mor effeithiol yw ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, ond mae angen iddo wneud rhagor o waith i ddangos effaith y gwaith craffu.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae eitem 1 yn cynnwys ein cynigion am ffyrdd y gallai'r Cyngor wneud ei swyddogaeth trosolwg a chraffu yn fwy effeithiol fel ei fod mewn sefyllfa well i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

Eitem 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor ailedrych a fyddai hyfforddiant penodol yn gallu paratoi aelodau trosolwg a chraffu yn well i ymateb i heriau nawr ac yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| C2 | Dylai'r Cyngor ailedrych ar y lefel a'r math o gefnogaeth sydd ei hangen ar graffu er mwyn i'r swyddogaeth graffu allu ymateb i heriau nawr ac yn y dyfodol. |
| C3 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau'n cael cyfle i baratoi'n ddigonol ar gyfer gweithgaredd craffu drwy allu cael gafael ar wybodaeth cyn cyfarfodydd y pwyllgor craffu. |
| **Blaenraglenni gwaith pwyllgorau trosolwg a chraffu:** | |
| C4 | Dylai'r Cyngor:<br>a. gryfhau perchnogaeth y pwyllgor ar flaenraglenni gwaith ac agendâu'r pwyllgor; ac<br>b. egluro a hybu trefniadau ar gyfer ychwanegu eitemau at flaenraglenni gwaith ar gyfer yr aelodau a'r cyhoedd. |
| C5 | Dylai'r Cyngor wella'r trefniadau sy'n bodoli i werthuso effaith y gwaith craffu. |

# Adroddiad manwl

## Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu y Cyngor yn datblygu, ond mae angen mynd ati'n fwy effeithiol i gynllunio a gwerthuso'r gweithgaredd trosolwg a chraffu i sicrhau bod y swyddogaeth yn addas ar gyfer y dyfodol

### Mae'r Cyngor wedi cynyddu rôl y gwaith trosolwg a chraffu yn ei drefniadau gwella a llywodraethu, ond gallai gryfhau'r gefnogaeth i'r swyddogaeth graffu

9 Yn 2015, cytunodd ar y Cyngor ar strwythur diwygiedig ar gyfer ei bwyllgorau trosolwg a chraffu. Dyma'r newid sylweddol cyntaf i strwythur y pwyllgorau trosolwg a chraffu ers 2002, wrth i'r Cyngor geisio datblygu dull sy'n canolbwyntio fwy ar ganlyniadau yn ei drefniadau. Y strwythur diwygiedig, cyfredol yw pedwar pwyllgor craffu thematig a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu trosfwaol. Mae Cyfansoddiad y Cyngor ac Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2016/17[1] yn diffinio ac yn disgrifio rôl y swyddogaeth trosolwg a chraffu yn nhrefniadau llywodraethu a gwella'r Cyngor. Mae cyfraniad systematig y gwaith craffu at fonitro effaith newid mewn gwasanaethau, a'r ffaith fod penderfyniadau'n cael eu hatgyfeirio'n gyson i'r Cabinet i graffu arnynt, yn awgrymu bod rôl trosolwg a chraffu yn y Cyngor yn mynd yn fwyfwy arwyddocaol.

10 Buom yn edrych ar yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael i aelodau pwyllgorau craffu i ddeall yr amgylchedd y mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn gweithredu o'i fewn. Ym mis Mehefin 2017, gwahoddwyd holl aelodau'r pwyllgorau craffu i sesiwn hyfforddi ar 'sut i wneud gwahaniaeth' a sgiliau holi a gwrando effeithiol. Mae rhai pwyllgorau hefyd wedi cael cyflwyniadau arbennig ar 'sicrhau craffu effeithiol' i gefnogi'r gwaith o ddatblygu eu rhaglenni gwaith. Mae hyfforddiant yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion. Mae cadeiryddion pwyllgorau craffu yn cael hyfforddiant ar gadeirio, ac mae'r aelodau wedi disgrifio mentora neu gyfleoedd datblygu anffurfiol i gefnogi'r dysgu. Er enghraifft, cafodd yr Is-gadeiryddion eu hannog i arwain gweithgorau i ennill profiad o gadeirio. Mae hyfforddiant ar ddeall cyllidebau a data perfformiad y Cyngor yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Craffu ar Gyllid a Pherfformiad, ond nid i'r pwyllgorau eraill. Gallai hyn fod yn wendid yn y trefniadau. Er mai'r Pwyllgor Craffu ar Gyllid a Pherfformiad sy'n adolygu gwybodaeth am berfformiad yn bennaf, mae'n debygol y bydd angen i'r holl aelodau craffu ystyried rhai data am berfformiad a byddai mwy o hyfforddiant o fudd iddynt. Gallai'r Cyngor

[1] **Trosolwg a Chraffu 2016/17, Adroddiad Blynyddol** 2017 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

ystyried a fyddai rhagor o hyfforddiant yn gysylltiedig â heriau a allai effeithio ar y gwaith craffu nawr ac yn y dyfodol, fod yn gymorth i gryfhau'r swyddogaeth graffu. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant penodol ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Darparwyd hyfforddiant penodol i gefnogi aelodau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

11 Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a dau Swyddog Gwasanaethau Democrataidd wrthi'n rhoi cefnogaeth bwrpasol i'r swyddogaeth trosolwg a chraffu. Mae nifer y staff cymorth wedi gostwng, ond mae'r Cyngor wedi ailddyrannu cyfrifoldebau i gydnabod hyn. Erbyn hyn, Adran Adnoddau Dynol y Cyngor sy'n gyfrifol am hyfforddi'r aelodau, ac mae'r Uned Busnes Gweithredol a Rheoleiddiol yn cefnogi'r pwyllgorau rheoleiddio. Mae swyddogion o Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus hefyd wedi rhoi cefnogaeth i'r swyddogaeth trosolwg a chraffu. Mae hyn wedi ceisio gwella'r prosesau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac i roi manylion rhaglen waith y Cabinet i aelodau'r pwyllgorau craffu. Oherwydd newidiadau i'r trefniadau cymorth, dylai'r Cyngor adolygu anghenion cymorth presennol aelodau'r pwyllgorau craffu ac ystyried pa gefnogaeth a allai fod angen arnynt yn y dyfodol. Teimlai'r aelodau craffu fod y gefnogaeth i'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn ddigonol yn gyffredinol, ond roeddent yn mynegi pryderon ynglŷn â'r capasiti i gefnogi'r swyddogaeth graffu yng nghyd-destun gostyngiadau i'r gyllideb nawr ac yn y dyfodol.

12 Fel arfer, mae cynnwys priodol i'w cael yn yr adroddiadau craffu. Ond ar adegau fe welsom swyddogion yn darparu adroddiadau ar lafar, neu gyflwyniadau nad oedd wedi cael eu cynnwys yn y papurau agenda a ddosbarthwyd ymlaen llaw. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai'n anodd i aelodau craffu baratoi'n ddigonol at eu trafodaeth fel pwyllgor. Gallai hynny arwain at graffu aneffeithiol neu ddefnyddio amser y pwyllgor yn aneffeithiol.

13 Er y gallai'r rhan fwyaf o aelodau'r pwyllgorau craffu fynegi beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â throsolwg a chraffu, roedd rhai aelodau'n llai eglur beth yw pwrpas y swyddogaeth graffu. Mae'r prinder tystiolaeth ynghylch effaith y gwaith craffu, a'r diffyg perchnogaeth gan bwyllgorau craffu ar agweddau ar eu blaenraglenni gwaith, yn awgrymu bod angen egluro fwy beth y mae'r swyddogaeth graffu yn ceisio ei gyflawni. I ymateb i'n hadroddiad ar yr Astudiaeth Wella Genedlaethol, sef Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014), cytunwyd ar rolau aelodau'r Weithrediaeth mewn perthynas â chraffu, ac ymgorfforwyd hynny yn nisgrifiadau swyddi'r Cabinet.[2] Yng nghyfarfodydd y pwyllgorau, y swyddogion sydd fel arfer yn cyflwyno adroddiadau ac atyn nhw y mae'r rhan fwyaf o gwestiynau'n cael eu cyfeirio. Ond yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu system lle mae aelodau'r Cabinet yn darparu diweddariadau chwarterol ar hynt

[2] Archwilydd Cyffredinol, **Astudiaeth Wella Genedlaethol 'Craffu Da? Cwestiwn Da!', Swyddfa Archwilio Cymru**, Mai 2014

portffolios i bwyllgorau craffu. Dyma gam cadarnhaol i gynyddu'r atebolrwydd, a chyfle ychwanegol i aelodau'r pwyllgorau craffu gyflawni eu rôl yn dal y weithrediaeth i gyfrif. Gan nad yw portffolios aelodau'r Cabinet yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chylchoedd gwaith y pwyllgorau craffu, mae nifer o aelodau'r Cabinet yn atebol i rai pwyllgorau. Mae perygl y bydd y trefniant hwn yn cael effaith anghymesur ar raglenni gwaith y pwyllgorau hyn o gymharu â rhai eraill. Er enghraifft, mae o leiaf bum portffolio Cabinet ar y Pwyllgor Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau, a Ffyniant, a byddant yn atebol iddo. Ar lefel ymarferol, gallai fod yn fwy anodd i'r pwyllgorau craffu hyn a'u Cadeiryddion gwrdd yn rheolaidd â holl aelodau perthnasol y Cabinet. Teimlai'r rhan fwyaf o'r aelodau fod y berthynas rhwng y swyddogaeth trosolwg a chraffu a'r Cabinet yn effeithiol.

## Mae'r Cyngor wedi gwella'r arferion trosolwg a chraffu, ond nid yw'r gweithgaredd yn cael ei gynllunio'n dda bob amser

14 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella'r modd y mae rhaglenni gwaith craffu yn cael eu datblygu. Yn 2017, roedd sesiwn gyntaf grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn cynnwys cyflwyniad ar flaenraglenni gwaith gan Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Roedd y cyflwyniad yn nodi adborth allanol ar y swyddogaeth graffu, yn cael ei ategu gan egwyddorion i gynllunio'n fwy effeithiol a meysydd allweddol i'w gwella. Fe wnaeth hwylusydd allanol deilwra sesiynau ar ddatblygu rhaglenni gwaith i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Craffu Pobl Ifanc a'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Llesiant.

15 O fewn ei gylch gwaith, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adolygu blaenraglenni gwaith y pwyllgorau thematig i sicrhau bod amser yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac i leihau'r risg fod gwaith yn cael ei ddyblygu. Er bod manteision pendant i'r dull hwn, dylai'r aelodau craffu gofio (fel y dywed Cyfansoddiad y Cyngor) y 'bydd hawl gan unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu neu'r Pwyllgorau Craffu thematig i roi rhybudd i'r Swyddog Priodol ei fod/ei bod yn dymuno i eitem sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor gael ei chynnwys ar agenda'r Pwyllgor, a'i thrafod mewn cyfarfod. Buom yn arsylwi ar sesiwn lle nad oedd yr aelodau'n glir sut mae eitemau'n cael eu hychwanegu at flaenraglenni gwaith y pwyllgor na beth yw rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y trefniadau hyn.

16 Mae gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu rôl hefyd yn monitro'r modd y mae blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu thematig yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn digwydd drwy adroddiadau gan y cadeiryddion i'r pwyllgor o fewn y flwyddyn am y cynnydd hyd yn hyn. Mae'n rhywbeth cadarnhaol fod y Cyngor yn ceisio dod â chadernid a her ychwanegol i raglenni gwaith y swyddogaeth graffu, ond mae'n anodd asesu pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn gan nad yw cofnodion yr eitemau'n nodi'r drafodaeth na'r effaith y gallai honno fod wedi'i chael.

17 Er bod nifer o gryfderau posibl yn y trefniadau i ddatblygu blaenraglenni gwaith, mae gwendidau yn y ffordd y penderfynir ynghylch agendâu cyfarfodydd y

pwyllgorau unigol. Mynegodd Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu rwystredigaeth oherwydd weithiau mae eitemau'n cael eu hychwanegu at agendâu cyfarfodydd pwyllgorau, neu maen nhw'n absennol ohonynt, a dim ond pan fyddai papurau'r cyfarfod yn cael eu dosbarthu y byddai'r Cadeiryddion yn cael gwybod am hyn. Disgwylir y bydd y rhaglenni gwaith yn cadw peth hyblygrwydd i addasu yn ôl materion sy'n dod i'r amlwg neu pwy sydd ar gael, ond pwrpas y gwaith o ddatblygu blaenraglenni gwaith yw cefnogi aelodau pwyllgorau craffu i wneud gwaith craffu sydd wedi'i gynllunio'n dda ar sail gwybodaeth. Heb gysylltiad rhwng y swyddogion a Chadeiryddion a'u pwyllgorau wrth drefnu eitemau craffu, mae perygl na fyddai rhaglenni gwaith y pwyllgor craffu yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Gallai hyn danseilio perchnogaeth y pwyllgorau craffu ar eu rhaglenni gwaith eu hunain. Mae'n bwysig felly fod y swyddogion yn cael dealltwriaeth briodol o rôl y pwyllgorau trosolwg a chraffu, ac o'r trefniadau y mae'r pwyllgorau wedi'u mabwysiadu i benderfynu pa faterion y byddant yn craffu arnynt.

18 Yn ein hadolygiad Llywodraethu Da ym mis Chwefror 2017, fe wnaethom ni ddau argymhelliad mewn perthynas â throsolwg a chraffu wrth benderfynu ynghylch adolygiad o newidiadau sylweddol i wasanaethau,[3] sef:

- Bod y Cyngor yn egluro ac yn hybu'r trefniadau ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn ei broses trosolwg a chraffu er mwyn annog a hybu cyfranogiad y cyhoedd; a
- Bod y Cyngor yn cyhoeddi blaenraglen(ni) gwaith y pwyllgorau trosolwg a chraffu fel dogfen(nau) annibynnol ar wefan y Cyngor er mwyn bod yn fwy agored a thryloyw.

19 I ymateb i'r argymhellion hyn, ac i gydnabod bod angen hybu gweithgareddau craffu, mae'r Cyngor wedi dechrau cymryd camau i hybu cyfraniad gan y cyhoedd i'w broses trosolwg a chraffu. Mae'r Cyngor wedi dechrau sefydlu presenoldeb pwrpasol ar y cyfryngau cymdeithasol, a hynny gyda chefnogaeth o fewn swyddogaeth cyfathrebu corfforaethol y Cyngor i hybu gwaith y swyddogaeth graffu. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu cyfres o dudalennu craffu ar y wefan, a daeth y rheini'n weithredol ym mis Ionawr 2018. Mae'r rhain yn cysylltu â phapurau cyfarfodydd pwyllgorau craffu, adroddiadau diweddar a dalfan ar gyfer blog arfaethedig gan gadeiryddion y pwyllgorau craffu. Mae'r tudalennau ar y wefan yn gam cadarnhaol i sicrhau bod gwybodaeth am y gwaith craffu yn fwy hygyrch, ac maent yn cynnwys dolenni at raglenni gwaith y pwyllgorau craffu. Ond er bod rhaglen waith y pwyllgorau trosolwg a chraffu yn ei ffurf derfynol, mae hawl gan raglenni gwaith pwyllgorau craffu eraill i gael 'gwybodaeth i'w hystyried fel rhan o'r gwaith o lunio'r rhaglen waith craffu ar gyfer 2017/18'. Mae rhaglenni gwaith y pedwar pwyllgor craffu thematig yn cynnwys diwyg a meini prawf amrywiol ar gyfer cynnwys eitemau. Mae eitemau agendâu yn cael eu rhestru fel 'pynciau posibl' ac mae rhai ohonynt yn anghyflawn. Gallai hyn olygu bod statws y dogfennau yn

[3] Adolygiad Llywodraethu Da wrth benderfynu ynghylch newidiadau sylweddol i wasanaethau

aneglur i'r cyhoedd. Nid yw'r un o'r blaenraglenni gwaith yn mynegi'n glir beth yw'r rhesymeg dros ddewis eitem neu beth yw rôl y pwyllgor craffu o ran ei hystyried. Byddai cynnwys gwybodaeth am y modd y gall y cyhoedd neu randdeiliaid eraill awgrymu eitemau i'w cynnwys ar raglenni gwaith y pwyllgor craffu yn gwella'r tudalennau ar y wefan.

20 Mae rhai enghreifftiau clir o bryd mae pwyllgorau craffu wedi cynnal grwpiau gorchwyl a gorffen sydd wedi ymgorffori amrywiaeth o safbwyntiau. Y gweithgor diweddar sydd wedi delio â Darpariaeth Mislif Am Ddim mewn Ysgolion yn ymgynghori â bron i 800 o ddysgwyr benywaidd, yn ogystal ag ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid. Hefyd, roedd gweithgor wedi cynnal adolygiad am effeithiolrwydd Cyrff Llywodraethu ledled Rhondda Cynon Taf ac wedi ceisio barn penaethiaid a staff. Mae'r gweithgorau'n creu cylch gorchwyl yn eu sesiwn gyntaf, ac mae hyn yn dangos yn glir beth yw'r hyd a'r lled, yr allbwn a fwriedir a pha dystiolaeth sydd ei hangen. Mae hyn yn sicrhau bod rhesymeg glir ac amcan i'r gweithgaredd craffu, a'i fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Byddai'r ddogfen yn elwa o gynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni, ac ystyried sut bydd aelodau'r pwyllgorau craffu yn mesur yr effaith o ganlyniad i weithgaredd. Er bod y gweithgorau'n dangos gwaith cynllunio clir, fel mewn llawer o gynghorau yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith craffu yn canolbwyntio ar weithgaredd yn seiliedig ar bwyllgorau, sy'n canolbwyntio ar gyflwyno adroddiadau gan swyddogion. Ni chawsom fawr o dystiolaeth i awgrymu bod hyn yn ystyried y dull mwyaf priodol, pa dystiolaeth ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol neu ba effaith y mae'r gwaith craffu i fod i'w chael.

21 O ganlyniad i fwy o drosolwg ar flaenraglen waith y Cabinet, mae'r pwyllgorau craffu yn dechrau dewis eitemau i graffu arnynt ymlaen llaw yn fwy rheolaidd. Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau i raglen waith ei Gabinet er mwyn darparu mwy o eglurder i'r cyhoedd a'r swyddogaeth trosolwg a chraffu. Mae'r Cabinet yn gefnogol i'r gwaith o graffu cyn gwneud penderfyniadau am y pynciau sydd yn eu rhaglen waith, a gwelwyd enghreifftiau o'r Cabinet yn cyfeirio eitemau i'r pwyllgorau craffu eu hystyried.

22 Buom hefyd yn ystyried sut mae cynghorau'n dechrau craffu ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr 2017, ac mae'r gwaith craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y camau cynnar.

## Mae'r Cyngor yn dechrau gwerthuso pa mor effeithiol yw ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, ond mae angen iddo wneud rhagor o waith i ddangos effaith y gwaith craffu

23 Ers ei adolygiad o'r trefniadau craffu yn 2015, mae'r Cyngor wedi gweithio tuag at symud ffocws y gwaith trosolwg a chraffu o gynhyrchu allbynnau i gyfeiriad cael effaith ystyrlon ar ddinasyddion.

24 Mae system yn bodoli i olrhain argymhellion craffu, ac mae proses glir ar gyfer cyflwyno'r argymhellion hyn i'r Cabinet. Mae’r Cabinet yn penderfynu a ydynt yn cefnogi'r argymhellion craffu, yn ddibynnol ar ragor o ystyriaeth gan y sail sy’n dal portffolio’r Cabinet am y maes dan sylw. Yna, mae ymateb manwl yn cael ei ddarparu i'r pwyllgor craffu naill ai drwy lythyr ffurfiol neu drwy fod yr Aelod o'r Cabinet yn dod i'r pwyllgor (neu'r ddau).

25 Mae nifer o enghreifftiau o allbynnau’n seiliedig ar dystiolaeth gan weithgorau’r pwyllgorau craffu. Yn aml, mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddatrysiadau. Mae’n beth cadarnhaol fod y pwyllgor craffu wedi dewis pynciau megis y gweithgor sy'n delio â Darpariaeth Mislif Am Ddim mewn Ysgolion, lle mae’r aelodau’n teimlo eu bod nhw’n gallu bod yn dreiddgar, casglu amrywiaeth o dystiolaeth a gallu gwneud gwahaniaeth.

26 Ond mae’r rhan fwyaf o waith y swyddogaeth craffu yn digwydd o fewn pwyllgorau craffu. Mae papurau cyfarfodydd yn awgrymu bod ambell achos lle cafwyd geiriau fel ‘penderfynodd y pwyllgor dderbyn yr eitem’ neu ‘mae’r pwyllgor yn cydnabod yr eitem’. Roedd craffu’n digwydd ar yr eitemau hyn heb lwybr gweithredu clir ar ôl craffu. Hefyd, gwelsom nifer o argymhellion fod eitemau craffu’n dod yn ôl i'r pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gael diweddariad ar ryw ddyddiad penodol. Nid yw’n glir bob amser beth yw pwrpas neu resymeg rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf na’r amserlenni. Pwysleisiodd yr aelodau wrthym fod heriau o ran sicrhau eu bod yn cael amser i graffu ar faterion pwysig. Mae hyn yn awgrymu bod angen sicrhau o hyn ymlaen fod eitemau’n cael eu blaenoriaethu’n fwy trwyadl cyn eu hychwanegu at raglenni gwaith.

27 Mae’r Cyngor yn cydnabod bod heriau o ran dangos effaith y gwaith trosolwg a chraffu ar wasanaethau a dinasyddion. Mae Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2016/17 yn gam sylweddol wrth gysylltu’r gweithgaredd craffu ‘gyda’r hyn mae'r gwaith craffu wedi'i gyflawni’. Mae’n beth cadarnhaol fod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys meysydd y mae’r cadeiryddion o’r farn y gellid eu gwella yn y broses, ac mae tystiolaeth fod aelodau a swyddogion o fewn y Cyngor yn ceisio mynd i’r afael â'r gwendidau hyn. Ond nid ydym wedi gweld fawr o dystiolaeth sy’n dweud pa argymhellion craffu a gefnogwyd i ddechrau gan y Cabinet ac sydd wedi cael eu gweithredu, a beth oedd yr effaith. Hefyd, nid yw'r Cyngor wedi edrych a yw’r argymhellion hynny wedi gwneud gwahaniaeth i ddinasyddion. Byddai’r gwaith o werthuso pa mor effeithiol yw’r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn well petai’n adeiladu ar sylfaen tystiolaeth ehangach; er enghraifft, adborth ansoddol gan randdeiliaid y Cyngor a’r rhai y mae’r gweithgaredd craffu i fod i gael effaith arnynt.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol

| Canlyniad<br>Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni? | Nodweddion<br>Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod? |
|---|---|
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br><br>**'Gwasanaethau Gwell'** | **Amgylchedd**<br><br>i) Mae swyddogaeth werthfawr sydd wedi'i diffinio'n glir i graffu yn nhrefniadau gwella'r cyngor.<br><br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael cefnogaeth swyddogion pwrpasol sy'n gallu ymgymryd â gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol a rhoi hyfforddiant, cyngor a gwasanaeth dadansoddi o ansawdd uchel i aelodau'r pwyllgorau Craffu.<br><br>**Ymarfer**<br><br>iii) Mae ymchwiliadau Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol gyda methodoleg gadarn sy'n ymgorffori amrywiaeth eang o safbwyntiau a thystiolaeth.<br><br>**Effaith**<br><br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio darparwyr gwasanaethau a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br><br>v) Mae'r swyddogaeth graffu yn darparu atebion ymarferol sydd wedi'u hategu â thystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br><br>**'Penderfyniadau Gwell'** | **Amgylchedd**<br><br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.<br><br>ii) Mae'r broses yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan Dîm Rheolaeth Gorfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod swyddogion craffu yn cael gwybodaeth o ansawdd uchel mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Ymarfer**<br><br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael ei harwain gan yr Aelodau ac yn arddel 'perchnogaeth' ar ei rhaglen waith, gan ystyried barn y cyhoedd, |

| **Canlyniad**<br>**Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?** | **Nodweddion**<br>**Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod?** |
|---|---|
| | partneriaid a rheoleiddwyr a sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi blaenoriaeth i bryderon y gymuned a materion o risg a phwysigrwydd strategol.<br><br>iv) Mae rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at ddatblygu a chyflawni blaenraglenni gwaith ym maes craffu.<br><br>v) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, maent yn cael eu cadeirio'n effeithiol ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosib.<br><br>**Effaith**<br><br>vi) Mae Aelodau Anweithredol yn darparu gwasanaeth cadw cydbwysedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau ar lefel Weithredol.<br><br>vii) Mae'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi cyfrif drostynt eu hunain yn gyhoeddus mewn pwyllgorau craffu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau portffolio. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol.**<br><br>**'Ymgysylltiad Gwell'** | **Amgylchedd**<br><br>i) Mae'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol a Gweithredol yn cydnabod bod craffu yn ddull pwysig y gall y cyngor ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Ymarfer**<br><br>ii) Mae cyfathrebu effeithiol yn nodweddiadol o'r swyddogaeth graffu er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog pobl i ymwneud â hynny.<br><br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn ffordd anwleidyddol ac yn delio'n effeithiol â gwrthdaro, tensiwn a materion gwleidyddol sensitif.<br><br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthynas dda ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br><br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi 'llais' cymunedau a phobl leol ledled yr ardal i gael ei glywed fel rhan o brosesau gwneud polisïau a phenderfyniadau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o adroddiad Astudiaeth Wella Genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol, sef ‘Craffu Da? Cwestiwn Da!’ (Mai 2014)

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| **A1** Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **A2** Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i wneud gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **A3** Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau bod y dull craffu mwyaf addas yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y maes pwnc a’r canlyniad y gobeithir amdano; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella’r cyngor. | Cynghorau |
| **A4** Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| **A5** Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo’n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| **A6** Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso’n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **A7** Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio | Cyngor |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i llywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | |
| **A8** Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| **A9** Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500,
Fax: 029 2032 0600,
Textphone.: 029 2032 0660,

E-mail: info@audit.wales
Website: www.archwilio.cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

a